



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Materion Ewrop

Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r UE

Rhifyn 12 - Mawrth/Ebrill 2009



Cyflwyniad

Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gyflwyno'r deuddegfed rhifyn o Materion Ewrop, diweddariad misol o waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion Ewropeaidd.

Ar 23 Mawrth, cafwyd tystiolaeth gan Danuta Hübner, y Comisiynydd Ewropeaidd dros Bolisi Rhanbarthol, i lansio ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE, a threfnwyd rhagor o sesiynau tystiolaeth ar gyfer y tymor nesaf. O gofio y bydd Cymru'n elwa o rhyw €2.2 biliwn o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd rhwng 2007 a 2013, mae'r drafodaeth ynghylch dyfodol y maes polisi hwn yn un bwysig, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng a'r pryderon ariannol ac economaidd ynghylch diweithdra ledled Ewrop. Canmolodd y Comisiynydd y Pwyllgor am amseroldeb yr ymchwiliad, a phwysleisiodd fod consensws clir am yr angen i barhau â Pholisi Cydlyniant sy'n cynnwys holl ranbarthau Ewrop ac yn canolbwyntio ar gyflawni amcanion cyffredinol Strategaeth Lisbon a datblygu cynaliadwy.

Ar 10 Mawrth, cawsom ddiweddariad gan y Prif Weinidog ynghylch sut mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn defnyddio'r cronfeydd strwythurol a'r dulliau eraill sydd ar gael iddi wrth ymateb i'r argyfwng economaidd. Digwyddodd hyn ochr yn ochr â'r ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gan y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r mater. Mae'r Pwyllgor hwnnw wedi clywed tystiolaeth gan amryw o randdeiliaid ledled Cymru.

Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi cynnal dwy sesiwn dystiolaeth mewn perthynas â'r Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol. Cafwyd tystiolaeth gan GIG Cymru, Cydffederasiwn y GIG, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, BMA Cymru Wales, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r ymchwiliad hwn wedi codi amryw o faterion ynghylch ymarferoldeb a heriau sy'n ymwneud â'r llif o gleifion rhwng aelod wladwriaethau, ac edrychaf ymlaen at yr adroddiad drafft a'r argymhellion a gaiff eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor ym mis Mai.

Bydd y Cynulliad, drwy Christine Chapman, ein haelod ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yn chwarae rhan ganolog yn y ddadl dros ddyfodol Stratgaeth Lisbon



Christine Chapman â Jose Manuel Barroso, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd

yr UE. Dewiswyd Christine i ysgrifennu papur safbwynt ar ddyfodol Strategaeth Lisbon ar Dwf a Swyddi, sef y brif strategaeth economaidd sy'n arwain yr Undeb Ewropeaidd. Cyfarfu Christine â Jose Manuel Barroso, Llywydd y Comisiwn, ddechrau mis Mawrth, ac edrychwn ymlaen at gael diweddariad ar ei gwaith yn ystod ein cyfarfod ar 28 Ebrill. Yn ymuno â hi yn y cyfarfod bydd y Cynghorydd Bob Bright o Gyngor Dinas Casnewydd, cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, a'r Cynghorydd Ronnie Hughes o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cynrychiolydd Cymru ar Gyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Cyngor Ewrop.

Hoffwn ddiolch hefyd i Andy Klom, cynrychiolydd y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru am ei gyfraniad rheolaidd i waith y Pwyllgor ac am ei ddiweddariad ar 24 Chwefror, a nodwn y gefnogaeth y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn ei rhoi i'r digwyddiad i nodi Diwrnod Ewrop a gynhelir yn y Senedd ar 6 Mai.

Ymhlith gweithgarwch Pwyllgorau eraill y Cynulliad, cynhaliodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig sesiwn dystiolaeth ar 26 Mawrth ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan ar weithredu'r rheoleiddiad ar adnabod defaid yn electronig, a bydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn dechrau ei ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru ddiwedd mis Ebrill. Bydd y Pwyllgor yn ymweld â sir Gaerloyw er mwyn clywed sut yr ymdopodd pobl yno â'r llifogydd difrifol yn 2007, ac mae'r Pwyllgor yn bwriadu clywed dystiolaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o'r ymchwiliad.

Yn olaf, mae'n bleser nodi nifer ac amrywiaeth yr ymweliadau rhyngwladol â'r Senedd dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnwys Llysgennad Gweriniaeth Slofacia, a dirprwyaethau o Armenia, Gweriniaeth Cosofo, Romania a Chatalonia.

Sandy Mewies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol



Busnes arfaethedig yn ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol:** mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal y sesiwn dystiolaeth â'r Cynghorau Iechyd Cymuned ar 28 Ebrill (gohiriwyd y sesiwn ar 23 Mawrth). Caiff yr adroddiad ei ddrafftio er mwyn i'r Pwyllgor ei drafod ym mis Mai.
- **Ymchwiliad i Ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** mae'r Pwyllgor wedi trefnu nifer o sesiynau dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn ystod tymor yr haf
- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** Bydd Christine Chapman a'r Cynghorydd Bob Bright, dau aelod llawn Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar 28 Ebrill. Yn ymuno â hwy bydd y Cynghorydd Ronnie Hughes o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cynrychiolydd Cymru ar Gyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Cyngor Ewrop.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i Lifogydd yng Nghymru:** bydd yr ymchwiliad hwn yn dechrau'n fuan a bydd yn edrych ar effeithiau llifogydd ar unigolion a chymunedau, ac ar yr ymateb i achosion o lifogydd gan y prif randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys a chwmnïau yswiriant. Bydd y Pwyllgor yn ymweld â sir Gaerloyw ar 11 Mai fel rhan o'r ymchwiliad.

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig:** bydd y Pwyllgor yn parhau i glywed dystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad hwn yn ystod tymor yr haf.

Edrych yn ôl: pynciau'n ymwneud â'r UE y bu pwyllgorau'r Cynulliad yn eu trafod

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Ymchwiliad i Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol:** ar 24 Chwefror, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan GIG Cymru, Cydffederasiwn y GIG, Llywodraeth y Cynulliad a BMA Cymru Wales, ac ar 10 Mawrth clywyd dystiolaeth gan Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain.
- **Yr Argyfwng Economaidd ac Ariannol:** ar 10 Mawrth, cafwyd y newyddion diweddaraf am y mater hwn gan y Prif Weinidog.
- **Ymchwiliad i Ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** rhoddodd Danuta Hübner, y Comisiynydd Ewropeaidd, dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 23 Mawrth.
- **Y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru:** ar 24 Chwefror, rhoddodd Andy Klom, pennaeth swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar weithgareddau'r UE ar draws Cymru.

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol:** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Ffederasiwn Busnesau Bach a Venture Capital Wales ar 26 Chwefror, gan Gynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector ar 5 Mawrth, gan TUC Cymru a'r CBI ar 12 Mawrth, a chan Brifysgol Abertawe, Prifysgol Morgannwg a Menter Busnesau Gorllewin Cymru ar 19 Mawrth.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru:** Lansiodd y Pwyllgor ei adroddiad i'r ymchwiliad hwn ar 1 Ebrill.

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Ymchwiliad i adnabod defaid yn electronig (EID):** Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr i adnabod defaid yn electronig (EID), a chlywodd safbwyntiau gan randdeiliaid ar y materion sy'n gysylltiedig â gweithredu EID mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan. Ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth roedd ffermwyr lleol, NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, a'r Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw.

Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** aeth Christine Chapman i gyfarfod o'r Comisiwn Materion Economaidd a Chymdeithasol ar 19 Chwefror, pryd yr enwebwyd hi'n ffurfiol fel rapporteur i lunio adroddiad ar ddyfodol Strategaeth Lisbon ar Dwf a Swyddi. Aeth Christine hefyd i uwchgynhadledd Dinasoedd a Rhanbarthau ym Mhrâg ar 5-6 Mawrth, pryd y cyfarfu â Jose Manuel Barroso, Llywydd y Comisiwn.

Ymwelwyr rhyngwladol â'r Senedd

- **Llysgennad Gweriniaeth Slofacia:** ar 16 Mawrth, cafodd Ei Ardderchogrwydd Juraj Servan, Llysgennad Gweriniaeth Slofacia i'r DU, ei dywys ar daith o'r Senedd, fel rhan o ymweliad a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.
- **Cynulliad Gweriniaeth Cosofo:** ar 17 Mawrth, ymwelodd dirprwyaeth o Gynulliad Gweriniaeth Cosofo o dan arweiniad Mr Jakup Krasniqi, y Llefarydd a'r Llywydd, â'r Cynulliad ar gyfer trafodaethau ag Aelodau'r Cynulliad, fel rhan o ymweliad ehangach sy'n edrych ar y broses Seneddol, strwythur llywodraethol y DU, a rôl y deddfwrfeydd datganoledig.
- **Ymweliad Aelodau Seneddol o Armenia:** ar gais y Cyngor Prydeinig, ymwelodd dirprwyaeth o Aelodau Seneddol o Armenia â'r Cynulliad ar 10 Mawrth, ar gyfer cyfres o gyfarfodydd ag Aelodau'r Cynulliad. Roedd y ddirprwyaeth hefyd yn bresennol yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol fel arsylwyr. Cyfarfu'r Aelodau Cynulliad Christine Chapman, Sandy Mewies a Joyce Watson â'r ddirprwyaeth yn hwyrach yn y diwrnod gan drafod materion sy'n berthnasol i waith aelodau etholedig a merched mewn gwleidyddiaeth.
- **Asiantaeth Gyflogaeth Catalonia:** ar 12 Mawrth, aeth dirprwyaeth o Asiantaeth Gyflogaeth Catalonia ar daith o amgylch y Senedd fel rhan o ymweliad o Gymru o dan adran symudedd VETPRO o raglen Leonardo da Vinci yr UE, sydd â'r bwriad o rannu arfer gorau mewn hyfforddiant galwedigaethol.
- **Ymweliad o Romania:** ar 13 Mawrth, ar gais Arolygiaeth Wledig Cymru, cafodd dirprwyaeth o Romania daith o'r Senedd a rhoddwyd cyflwyniad iddynt am waith y Cynulliad.
- **Diwrnod Ewrop:** ar 6 Mai cynhelir derbyniad Diwrnod Ewrop yn y Senedd, a fydd yn cynnwys arddangosfa a stondinau yn yr Oriel.

Lincs

Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Hysbysiad Busnes y Cynulliad
Tudalennau'r Pwyllgorau
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Am ragor o wybodaeth

Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)

Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Cymru

6th Floor

Rond Point Schuman 11

1040 Bruxelles

Belgium

Ffôn 0032 2 226 66 92

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.